SESIWN 1: SUT BETH DDYLAI GWAITH FOD?

Ystod oedran: 11-18 oed **Amser: 1 awr**

Amlinelliad

Bydd y dysgwyr yn defnyddio eu gwybodaeth am waith, gan ystyried eu profiad gwaith personol a phrofiadau gwaith perthnasau a ffrindiau, i ystyried beth mae 'gwaith gweddus' yn golygu iddyn nhw. Mae'r hyn sy'n gwneud gwaith yn dda neu'n weddus yn oddrychol a bydd y dysgwyr yn meddwl yn feirniadol am y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at yr hyn sy'n gwneud gwaith yn weddus, gan gynnwys cyflog, telerau cyflogaeth, iechyd, diogelwch a lles, cydbwysedd gwaith a bywyd a'r gwaith ei hun. Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau a'u barn gydag eraill ac yn datblygu eu barn ynglŷn â pha rai o'r ffactorau hyn sydd bwysicaf iddyn nhw.

Amcanion dysgu

- Datblygu dealltwriaeth o rai o'r ffactorau sy'n effeithio ar b'un a yw gwaith yn dda neu'n weddus.
- Trafod barn a syniadau yn effeithiol mewn grwpiau.

Deilliannau dysgu

- Bydd y dysgwyr yn ystyried ac yn datblygu eu syniadau eu hunain am fyd gwaith, gan gynnwys beth maent yn meddwl am y gwahanol ffactorau sy'n cyfrannu at waith gweddus.
- Bydd y dysgwyr yn trafod eu syniadau ac yn myfyrio ar farn pobl eraill ar beth sy'n gwneud gwaith yn weddus.

Cwestiynau allweddol

- Sut beth ddylai gwaith fod?
- Beth yw'r ffactorau pwysicaf sy'n cyfrannu at 'waith gweddus' a pham?
- Sut mae eich barn am waith gweddus yn wahanol i farn pobl eraill?

Adnoddau

- *Sioe sleidiau – Beth yw gwaith gweddus? (sleidiau 1 i 7)*
- Taflenni adnodd:
  - *Agweddau ar waith gweddus*
  - *Ffactorau gwaith gweddus – Fersiwn A*
  - *Ffactorau gwaith gweddus – Fersiwn B*

Cysylltiadau â'r Cwricwlwm

Cymru

Fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith
Cyfnodau Allweddol 3 a 4

- Ystyried eu syniadau eu hunain a syniadau pobl eraill ynglŷn â dysgu, gyrfaoedd a byd gwaith i gyfarwyddo barn a phenderfyniadau
- Cyfathrebu'n glir yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n briodol, ynglŷn â gyrfaoedd a byd gwaith

ÔI-16

- Archwilio eu tybiaethau a'u dyheadau eu hunain a phobl eraill a gwneud y defnydd gorau o hyn wrth wneud penderfyniadau
- Cyfathrebu'n hyderus a chydlynol, yn Gymraeg neu'n Saesneg, fel sy'n briodol, ynglŷn â gyrfaoedd a byd gwaith mewn amrywiaeth eang o gyd-destunau

Gweithgaredd 1.1 *(10 munud)*

Beth sydd ei angen arnom a beth rydym eisiau?

- Gofynnwch i'r dysgwyr beth rydym yn golygu wrth ddefnyddio'r gair 'gwaith'? Dylai'r dysgwyr feddwl am eu profiadau eu hunain o waith a phrofiadau pobl maen nhw'n eu hadnabod. Gall y dysgwyr rannu eu hatebion mewn parau neu grwpiau bach. Efallai y bydd rhai dysgwyr yn ei chael yn anodd dychmygu sut beth yw gwaith. Anogwch nhw i feddwl am bobl y mae ganddynt gyswllt â nhw yn eu bywyd bob dydd sy'n gweithio mewn gwahanol ffyrdd – gweithwyr derbynfa, athrawon, gweithwyr iechyd proffesiynol, cynorthwywyr siop, rhieni sy'n aros gartref, blogwyr a pherchnogion gwefannau. Dangoswch sleidiau (3 i 7) sydd â lluniau o bobl yn gweithio i roi hwb i syniadau'r dysgwyr.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ddychmygu eu hunain yn gweithio. Gofynnwch iddynt feddwl sut beth yw'r gwaith, yr amodau a sut beth yw gweithio yno.
- Yn dilyn hyn, gofynnwch iddynt am beth maen nhw'n meddwl wrth iddynt ddychmygu 'gwaith gweddus'. Mewn byd perffaith, sut beth fyddai gwaith da neu weddus?

Gweithgaredd 1.2 *(30 munud)*

Beth sy'n gwneud gwaith yn weddus?

- Bydd dysgwyr nawr yn ystyried y gwahanol agweddau ar yr hyn sy'n gwneud gwaith yn weddus, gan gynnwys: cyflog; iechyd, diogelwch a lles; y gwaith ei hun; cydbwysedd gwaith a bywyd; a thelerau cyflogaeth.
- Mae dwy ffordd bosibl i wneud cam nesaf y gweithgaredd hwn:
    - Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach a rhowch gopi o *Agweddau ar waith gweddus* i bob pâr neu grŵp. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod, fesul pâr neu grŵp, beth maen nhw'n meddwl am bob agwedd.
    - Ysgrifennwch bob set o gwestiynau o *Agweddau ar waith gweddus* ar ddarn newydd o bapur siart troi. Rhannwch y dysgwyr yn barau neu'n grwpiau bach a gofynnwch iddynt beth maen nhw'n meddwl am bob agwedd. Gofynnwch i'r dygwyr ysgrifennu eu syniadau ar ddarnau o bapur gludiog a'u gosod ar y darnau perthnasol o bapur siart troi.
- Rhannwch y grwpiau yn 5 grŵp o'r un maint a gofynnwch i bob grŵp drafod un o'r *Agweddau ar waith gweddus* mewn mwy o fanylder, gan fyfyrio ar rai o'r syniadau a rannwyd gan aelodau eraill y dosbarth. Gwahoddwch bob grŵp i gyflwyno crynodeb o'u trafodaeth i weddill y dosbarth.
- Yn olaf, trafodwch y cwestiynau canlynol fel dosbarth cyfan:
    - *Beth yw'r agwedd bwysicaf ar waith gweddus?*
    - *Beth yw'r agwedd lleiaf pwysig?*
    - *A oedd pawb yn cytuno?*
    - *Pam fod barn pobl yn wahanol? A yw barn unrhyw un wedi newid? Pam?*

Gweithgaredd 1.3 *(20 munud)*

Blaenoriaethu'r hyn sy'n gwneud gwaith yn weddus

- Dangoswch daflen *Ffactorau Gwaith Gweddus* i'r dysgwyr. Defnyddiwch naill ai Fersiwn A neu Fersiwn B. Mae Fersiwn A yn defnyddio llai o ffactorau, a gallai hyn fod yn addas i'w ddefnyddio gyda dysgwyr iau. I gael trafodaeth fanylach gyda dysgwyr hŷn, defnyddiwch Fersiwn B. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod mewn parau ba ffactorau sydd bwysicaf. A oes unrhyw ffactorau eraill yr hoffai'r dysgwyr eu hychwanegu at y rhestr?
- Dwedwch wrth y dysgwyr fod gan bob un ohonynt 5 pleidlais, a rhowch 5 smotyn gludiog i bob dysgwr. Gofynnwch i'r dysgwyr osod eu smotiau wrth ymyl y ffactorau sydd bwysicaf iddyn nhw. Gwnewch hyn fel dosbarth ar gopi A3 mawr o daflen *Ffactorau Gwaith Gweddus*. Gall y dysgwyr osod cymaint o smotiau ag a ddymunant wrth ymyl ffactor, yn dibynnu ar ba mor bwysig ydyw iddynt.
- Gorffennwch drwy drafod y cwestiynau canlynol:

  Pa ffactorau'r oedd y dosbarth yn meddwl oedd bwysicaf er mwyn i waith fod yn weddus?

  A oedd unrhyw ffactor heb gael unrhyw bleidlais? Neu nifer fach o bleidleisiau yn unig? Pa ffactor ydoedd? A yw'n llai pwysig? Pam hynny?

  Sut beth ydych yn meddwl y gallai gwaith fod yn y dyfodol? A fydd yn newid? Pam ydych yn meddwl hynny?

Gwahaniaethu

Haws: Defnyddiwch Ffactorau Gwaith Gweddus – Fersiwn A.

Anoddach: Defnyddiwch Ffactorau Gwaith Gweddus – Fersiwn B neu gofynnwch i'r dysgwyr feddwl am eu ffactorau eu hunain ar gyfer gwaith gweddus.

Syniadau pellach

- Gallai'r dysgwyr ymchwilio i beth mae dosbarthiadau neu grwpiau blwyddyn eraill yn yr ysgol yn meddwl sut beth ddylai gwaith fod a beth sy'n gwneud gwaith yn weddus.
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu cwestiynau cyfweliad ac wedyn cyfweld â theulu a ffrindiau ynglŷn â beth mae gwaith gweddus yn meddwl iddyn nhw. Rhannwch waith ymchwil y dysgwyr fel dosbarth cyfan.
- Gallai'r dysgwyr edrych ar hysbysebion swyddi ac ystyried sut mae cyflogwyr yn hysbysebu swyddi gwag. *Pa ffactorau maen nhw'n pwysleisio fel rhai pwysig i geisio denu darpar gyflogeion? A yw'r wybodaeth sy'n cael ei darparu yn cynnwys y ffactorau a nodwyd yn rhai pwysig gan y dysgwyr?*
- Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu 'diwrnod yn eu bywyd' yn y dyfodol ar ddiwrnod gwaith arferol. Gan gynnwys sut beth yw'r gwaith, sut maen nhw'n teimlo am y gwaith, beth wnaeth ddigwydd i'w harwain at y swydd hon, beth yw eu gobeithion a'u dymuniadau i'r dyfodol?

- Datblygwch ddealltwriaeth y dysgwyr o waith, gan gynnwys gwaith di-dâl, drwy restru tasgau unigol gwahanol swyddi fel nyrs, rhiant sy'n aros gartref, rhywun hunangyflogedig, rhywun sy'n gofalu am berthynas, glanhawr neu reolwr banc. Gallai hyn fod drwy waith ymchwil, drwy gyfweld â rhywun sy'n gweithio neu drwy gysgodi rhywun.

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio ffotograffau a gwybodaeth gysylltiedig yn yr adnodd hwn at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd y gwaith prosiect.

Agweddau ar waith gweddus

Cyflog

- A yw'n golygu cael eich talu'n deg?
- A yw'n golygu cael eich talu ddigon o arian i dalu am eich anghenion sylfaenol?
- A yw'n golygu cael eich talu ddigon o arian i dalu am eich anghenion sylfaenol, a'ch bod yn gallu mwynhau eich diddordebau a mynd ar wyliau?
- A yw pob math o waith yn talu? A ddylai fod? Pam

Iechyd, diogelwch a lles

- Pwy sy'n gyfrifol am eich iechyd, diogelwch a lles?
- Beth sydd bwysicaf am eich iechyd, diogelwch a lles? Iechyd a lles corfforol, neu iechyd a lles meddyliol?

Y gwaith

- Beth sy'n bwysig fan hyn? A yw'n golygu bod â rheolaeth dros y tasgau a wnewch, bod â pherthynas dda â chydweithwyr, neu'r gallu i fod yn rhan o benderfyniadau?
- A yw'n bwysig eich bod yn datblygu oddi mewn i'r sefydliad? A yw'n bwysig eich bod yn dysgu sgiliau newydd ac yn gwella'r sgiliau sydd gennych?

Cydbwysedd gwaith a bywyd

- A yw'n bwysig bod gennych amser i'ch diddordebau ac i wneud yr hyn rydych yn ei fwynhau yn ystod eich amser hamdden?

Telerau cyflogaeth

- Beth sy'n bwysig i chi? Ai sicrwydd swydd, pensiwn, gwyliau â thâl neu absenoldeb salwch â thâl?

Ffactorau gwaith gweddus

Cyflog

1. Cyfradd yr awr neu gyflog sydd o leiaf yn ddigon i dalu am anghenion sylfaenol fel bwyd, tai a'r pethau mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd yn ganiataol heb fynd i ddyled
2. Mynediad at fuddion ariannol y tu hwnt i gyflog, fel help gyda gofal plant a chyfeirio at gymorth ychwanegol

Telerau cyflogaeth

3. Oriau gwaith rheolaidd a rhagweladwy
4. Swydd lle nad oes gwahaniaethu ar sail pwy ydw i, a lle gallaf leisio fy marn yn y gweithle

Y gwaith ei hun

5. Cydweithwyr cefnogol
6. Gwaith sy'n rhoi imi synnwyr o ddiben ac ystyr

Iechyd a diogelwch

7. Amgylchedd gwaith diogel sydd heb risg na niwed corfforol neu feddyliol
8. Cymorth priodol i helpu cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb o ganlyniad i anaf neu salwch

Cydbwysedd gwaith a bywyd

9. Gwaith nad yw'n golygu oriau gwaith eithafol a lle gallaf gael digon o amser i wneud yr holl dasgau y mae gofyn imi wneud
10. Hyblygrwydd wrth ddewis fy oriau gwaith

Ffactorau gwaith gweddus — Fersiwn B

Cyflog

1. Cyfradd yr awr neu gyflog sydd o leiaf yn ddigon i dalu am anghenion sylfaenol fel bwyd, tai a'r pethau mae'r rhan fwyaf o bobl yn cymryd yn ganiataol heb fynd i ddyled
2. Cael eich talu'n deg o gymharu â swyddi tebyg
3. Cael eich talu'n deg o gymharu â staff uwch
4. Cyflog yn eich poced sy'n rhagweladwy
5. Mynediad at fuddion ariannol y tu hwnt i gyflog, fel help gyda gofal plant a chyfeirio at gymorth ychwanegol fel credydau treth

Telerau cyflogaeth

6. Gwyliau ac absenoldeb â thâl
7. Sicrwydd swydd
8. Oriau gwaith rheolaidd a rhagweladwy
9. Cynrychiolaeth effeithiol i leisio fy marn yn y gweithle
10. Cyfleoedd i gael dyrchafiad a datblygu gyrfa
11. Mynediad at gyfleoedd hyfforddiant addas a chyfleus
12. Swydd lle nad oes gwahaniaethu ar sail pwy ydw i

Y gwaith ei hun

13. Y gallu i ddatblygu a defnyddio sgiliau yn y swydd bresennol
14. Rheolwr llinell cefnogol
15. Cydweithwyr cefnogol
16. Rheolaeth a hyblygrwydd o ran sut rydw i'n cyflawni fy ngwaith
17. Gwaith y credaf ei fod yn fuddiol yn gymdeithasol
18. Gwaith sy'n rhoi imi synnwyr o ddiben ac ystyr
19. Gwaith amrywiol

Iechyd a diogelwch

20. Amgylchedd gwaith diogel heb risg na niwed corfforol neu feddyliol
21. Cymorth priodol i helpu cyflogeion ddychwelyd i'r gwaith yn dilyn absenoldeb o ganlyniad i anaf neu salwch

Cydbwysedd gwaith a bywyd

22. Digon o amser i wneud yr holl dasgau y mae gofyn imi wneud
23. Gwaith nad yw'n golygu oriau gwaith eithafol
24. Hyblygrwydd i ddewis fy oriau gwaith fy hun
25. Swydd sy'n hawdd imi ei chyrraedd o ble rwy'n byw
26. Cyflogwr nad yw'n disgwyl imi gyrraedd cyn fy oriau gwaith na gadael ar ôl hynny, na gwneud goramser di-dâl

Telerau defnyddio

Hawlfraint © Oxfam GB

Cewch ddefnyddio'r ffotograffau hyn a'r wybodaeth gysylltiedig at ddibenion addysgol yn eich sefydliad addysgol. Gyda phob defnydd, rhaid ichi gyfeirio at y ffotograffydd a enwir ar gyfer y ddelwedd honno ac at Oxfam. Ni chewch ddefnyddio delweddau a gwybodaeth gysylltiedig at ddibenion masnachol nac y tu allan i'ch sefydliad addysgol. Mae'r holl wybodaeth sy'n gysylltiedig â'r delweddau hyn yn perthyn i'r dyddiad a'r amser y cynhaliwyd gwaith y prosiect.